

Dameg y Winllan a'r Tenantiaid (Mathew 21 :33-44)

Mc. 12:1-12; Lc. 20:9-19

Gwrandewch ar ddameg arall. Yr oedd rhyw berchen tŷ a blannodd winllan; cododd glawdd o'i hamgylch, a chloddio cafn i'r gwinwryf ynnddi, ac adeiladu tŵr. Gosododd hi i denantiaid, ac aeth oddi cartref. A phan ddaeth amser y cynhaeaf yn agos, anfonodd ei weision at y tenantiaid i dderbyn ei ffrwythau. Daliodd y tenantiaid ei weision; curasant un, a lladd un arall a llabyddio un arall. Anfonodd drachefn weision eraill, mwy ohonynt na'r rhai cyntaf, a gwnaeth y tenantiaid yr un modd â hwy. Yn y diwedd anfonodd atynt ei fab, gan ddweud, 'Fe barchant fy mab.' Ond pan welodd y tenantiaid y mab dywedasant wrth ei gilydd, 'Hwn yw'r etifedd; dewch, lladdwn ef, a meddiannwn ei etifeddiaeth.' A chymerasant ef, a'i fwrw allan o'r winllan, a'i ladd. Felly pan ddaw perchen y winllan, beth a wna i'r tenantiaid hynny?" "Fe lwyr ddifetha'r dyhirod," meddent wrtho, "a gosod y winllan i denantiaid eraill, rhai fydd yn rhoi'r ffrwythau iddo yn eu tymhorau." Dywedodd Iesu wrthynt, "Onid ydych erioed wedi darllen yn yr Ysgrythurau:

*" 'Y maen a wrthododd yr adeiladwyr,
hwn a ddaeth yn faen y gongl;
gan yr Arglwydd y gwnaethpwyd hyn,
ac y mae'n rhyfeddol yn ein golwg ni'?*

"Am hynny rwy'n dweud wrthyich y cymerir teyrnas Dduw oddi wrthyich chwi, ac fe'i rhoddir i genedl sy'n dwyn ei ffrwythau hi. A'r sawl sy'n syrthio ar y maen hwn, fe'i dryllir; pwy bynnag y syrth y maen arno, fe'i maluria."

Myfyrdod

Roedd Iesu yn aml yn adrodd damhegion oedd yn adlewyrchu bywyd ei gymuned. Yma darlunia sefyllfa gyffredin lle yr oedd gwinllan wedi ei gosod i denantiaid. Yn anffodus, nid oeddynt yn fodlon talu'r rhent i'r perchennog, ac y maent yn mynd i eithafion i sicrhau y winllan iddynt eu hunain.

A ninnau bellach ar drothwy tymor y diolchgarwch deurn yn ymwybodol unwaith eto o lawnder darpariaeth y greadigaeth, ac hefyd o'n cyfrifoldeb i ofalu am y byd ac am ein gilydd. Ar ryw olwg fe ellir dadlau ein bod ninnau, drwy amharchu'r greadigaeth a rheibio'r ddaear, wedi hawlio'r winllan i ni ein hunain.

Ond delwedd o genedl Israel yw'r winllan yn yr Hen Destament (gw. Ezeia 5:1-7), a dameg gan Iesu amdano'i hun ac agwedd yr awdurdodau crefyddol tuag ato oedd hon yn wreiddiol. Drwy wrthod y proffwydi gynt yr oeddynt wedi gwrthod negeswyr Duw, ac yn y diwedd byddent yn ei ladd yntau.

Yr un yw'r mab a'r maen yn y ddameg, ac yn yr iaith Hebraeg roedd y gair am fab (*ben*) a'r gair am faen (*eben*) yn hynod o debyg. Mae cefndir y sôn am y maen sy'n dinistrio yn ail bennod Llyfr Daniel (gw. Daniel 2:31-45). Yma yn y ddameg caiff y mab a'r maen eu gwrthod, ac mae'r naill a'r llall yn cael eu cyfiawnhau – y mab drwy i'r perchennog ddod a chipio'r winllan oddi ar y tenantiaid a'i rhoi i eraill, a'r maen gwrthodedig drwy gael ei osod yn y diwedd yn y lle mwyaf anrhydeddus yn yr adeilad i gyd!

Sôn amdano'i hun yr oedd Iesu. Cawn ninnau ein herio i
ystyried ein hagwedd tuag ato wrth fyfyrrio ar ei fywyd.

Meddai'r Salmydd;

Y maen a wrthododd yr adeiladwyr,
a ddaeth yn brif gonglfaen (Salm 118:22)

Yn y rhifyn cyfredol o *Cristion*, y mae'r Golygydd yn dyfynnu
geiriau'r diweddar Barchedig Elfed ap Nefydd Roberts; 'Proses
barhaus o roi mwy a mwy o'n bywyd i Dduw, mewn ymateb i'w
roi mawr ef i ni yn Iesu Grist, yw'r Bywyd Cristnogol.'

Emyn 'Wrth edrych Iesu ar dy groes' (C Ff 495)

Wrth edrych, Iesu, ar dy groes,
a meddwl dyfnder d'angau loes,
pryd hyn 'rwyf yn dibrisio'r byd
a'r holl ogoniant sy ynddo i gyd.

N'ad im ymddiried tra bwyf byw
ond yn dy angau di, fy Nuw;
dy boenau di a'th farwol glwy'
gaiff fod yn ymffrost imi mwy.

Dyma lle'r ydoedd ar brynhawn
rasusau yn disgleirio'n llawn:
mil o rinweddau yn gytûn
yn prynu'r gwrthgiledig ddyn.

Poen a llawenydd dan y loes,
tristwch a chariad ar y groes;
ble bu rhinweddau fel y rhain
erioed o'r blaen dan goron ddrain?

Myfi aberthaf er dy glod
bob eilun sydd o dan y rhod,
ac wrth fyfyrrio ar dy waed
fe gwymp pob delw dan fy nhraed.

ISAAC WATTS, 1674-1748
efel. WILLIAM WILLIAMS, 1717-91

Ctrl a Chlic

<https://youtu.be/2A05yTvsMY0>

Deep Harmony (Wrth Edrych Iesu Ar Dy Groes) · Cor Meibion Pendyrus

Gweddi

Ein Tad, llanw ein meddyliau â'th wirionedd
fel y gallwn ddirnad maint dy gariad tuag atom.
Cariad a waned yn amlwg i ni yn Iesu Grist,
ac a ddatguddiwyd drwy ei fywyd a'i farw a'i atgyfodiad ef.
Boed i'r cariad hwn fod yn nerth ac yn gynhaliaeth inni,
a chymorth ni i ymateb iddo drwy ein hymroddiad i ti
a'n hymwneud â'n gilydd.

Gofynnwn dy fendith ar ein byd a'n bywyd yn gyffredinol.
Yn nhymor diolchgarwch am y cynhaeaf
cyflwynwn i ti ein pryderon a'n gobeithion am y cread.
Gofidiwn am y modd y llygrwyd ac yr amharchwyd y ddaear
a gofynnwn am ddoethineb ac ymroddiad a nerth
i atal y difrod ac adfer y greadigaeth.

Gofynnwn dy fendith ar ein bywyd ysbrydol
a'n tystiolaeth fel disgyblion i ti.
Cywilyddiwn oherwydd ein diffyg ymroddiad
er i ti dy hun ein hysbrydoli.
Crea galon lân ynom, yw ein gweddi,
a rho ysbryd uniawn o'n mewn,
fel y gallwn dy addoli fel y dylem,

a mynegi dy fawredd a'th ogoniant,
waned yn amlwg yn Iesu Grist ein Harglwydd.

A gweddiwn drosom ein hunain a'n gilydd,
y bydd i ti leddfu ein pryderon a lliniaru ein gofid.
Cysura bawb sydd mewn galar a rho obaith i'r cleifion.
Bydd gyda'r gofalgwyr ym mhob man
a bendithia bawb sy'n ceisio cynorthwyo eraill.
Cadw ni'n ffyddiog, er gwaethaf pob gofid,
yn barod, beth bynnag a ofynnir gennym,
yn obeithiol, am fod ein hyder ynot ti,
ac yn gariadus oherwydd dy gariad.

Yn enw Iesu Grist, a fu farw,
ac a atgyfododd er mwyn i ni gael bywyd,
gwrando ein gweddi.
Amen.

Emyn 'Wele'n sefyll rhwng y myrtwydd' (C.Ff. 319)

Wele'n sefyll rhwng y myrtwydd
wrthrych teilwng o'm holl fryd,
er mai o ran yr wy'n adnabod
ei fod uwchlaw gwrthrychau'r byd:
henffych fore
y caf ei weled fel y mae.

Rhosyn Saron yw ei enw,
gwyn a gwridog, teg o bryd;
ar ddeng mil y mae'n rhagori
o wrthrychau penna'r byd:
ffrind pechadur,
dyma ei beilot ar y môr.

Beth sydd imi mwy a wnelwyf
ag eilunod gwael y llawr?
Tystio 'rwyf nad yw eu cwmni
i'w gystadlu â'm Iesu mawr:
O am aros
yn ei gariad ddyddiau f'oes.

ANN GRIFFITHS, 1776-1805

Ctrl a Chlic

<https://youtu.be/5szdT6Cu8g4>

Cymanfa Treforus (BBC) 1989: Wele'n Sefyll Rhwng y Mwrtydd (Ann Griffiths)

Y Fendith

Duw fo'n gysur ac yn nerth i ni,
Duw fo'n obaith ac yn gynhaliaeth i ni,
Duw fo'n llewyrch ac yn llwybr i ni,
a bendith Duw, Greawdwr, Waredwr a Rhoddwr bywyd,
a fo arnom yn awr a hyd byth. Amen.

Llyfr Gweddi Seland Newydd yn E ap N Roberts, Te Deum, 2017, t, 80